GIG CYMRU NHS WALES

Rhwydwaith Canser Cymru
Wales Cancer Network

Cynllun Gwella Gwasanaethau Canser ar gyfer GIG Cymru

2023-2026

CRYNODEB

Mae’r GIG yng Nghymru wedi ysgrifennu cynllun gwella canser sy’n disgrifio sut y gallwn wella gwasanaethau canser.

Bydd y cynllun yn sicrhau bod canlyniadau gofal canser a’r profiad y mae pobl yn ei gael o ofal canser yn well.

Dyma Grynodeb o Gynllun Gwella Canser Cymru 2023-2026.

Mae mwy o bobl nag erioed sy'n byw yng Nghymru yn cael canser; bydd y cynllun gwella hwn yn helpu'r bobl hynny sy'n gweithio ym maes gofal canser i wella'r gwasanaethau. Mae'r cynllun gwella canser yn disgrifio pwy sy'n gyfrifol am wneud gwelliannau, pryd y gwelir y gwelliannau hynny, a pha gamau fydd yn cael eu cymryd i sicrhau bod y gwelliannau hyn yn digwydd.

Mae'r cynllun gwella canser yn ystyried pob agwedd ar ofal, o'r camau gweithredu sydd eu hangen i geisio atal canser rhag digwydd yn y lle cyntaf, i ddiagnosis, i driniaeth a byw gyda chanser neu farw gydag urddas gyda chanser.

Ymdrinnir â'r meysydd hyn yn yr adrannau canlynol:

1. Atal pobl rhag cael canser (Atal Canser)
2. Nodi canser cyn gynted a phosibl (Diagnosis Cynnar)
3. Nodi bod gan berson ganser yn gyflymach (Diagnosis Cyflymach)
4. Gwella amseroedd aros ar gyfer triniaeth canser (Adferiad Gofal wedi'i Gynllunio)
5. Polisi iechyd cenedlaethol sy'n gwella gofal canser ac amseroldeb (Cydymffurfio â'r Llwybr Canser Sengl / Llwybrau Optimaidd Cenedlaethol)
6. Trin canser yn effeithiol (Triniaethau Effeithiol)
7. Gofal i'r cleifion hynny na ellir gwella'u canser (Gofal Lliniarol a Gofal Diwedd Oes)
8. Cefnogi cleifion canser a gwella gwasanaethau (Gwella Profiad Cleifion)
9. Cydweithio i wella gwasanaethau (Galluogwyr System Gyfan Allweddol)

1 Atal pobl rhag cael canser (Atal Canser)

Mae canserau yn llawer yn fwy cyffredin a ninnau mynd yn hŷn.

Gall ffactorau risg fel ysmygu, bod dros bwysau, bwyta deiet afiach, ac yfed alcohol gynyddu'r siawns o gael canser. Mae canser yn aml yn bodoli ochr yn ochr â chyflyrau iechyd eraill fel problemau'r galon, problemau anadlu, diabetes, a strôc. Mae pobl sy'n byw mewn ardaloedd incwm is yn fwy tebygol o gael y cyflyrau hyn.

Mae rhai mathau o feirysau (fel y feirws papiloma dynol (HPV) yn gallu achosi rhai mathau o ganser). Mae brechlyn yn cael ei gynnig fel mater o drefn i bobl sy'n gymwys, pobl yn eu harddegau yn bennaf (ond nid yn unig). Mae'r brechlyn yn amddiffyn rhag y mathau o feirws papiloma dynol sy'n achosi'r canserau hyn.

Rhwng

30-50%

o ganserau yn ataliadwy oherwydd gallant gael eu hachosi gan ein ffordd o fyw

Beth mae'r GIG yng Nghymru yn mynd i'w wneud i helpu?

- Parhau i gefnogi prosiectau, rhaglenni a mentrau cenedlaethol sy'n helpu pobl i leihau'r risg o ganser a phroblemau iechyd eraill y gellir eu hosgoi.
- Sicrhau bod pawb yng Nghymru sydd â hawl i gael brechlyn rhag y feirws papiloma dynol yn gallu ei gael.
- Bydd Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, gwasanaethau gofal sylfaenol (meddygon teulu a thimau gofal iechyd cymunedol) ac ysbytai yn helpu i gefnogi'r cyhoedd a chleifion canser i wneud dewisiadau iachach o ran eu ffordd o fyw.

2 Nodi canser cyn gynted â phosibl (Diagnosis Cynnar)

Pan fydd canser yn cael ei nodi'n gynnar, mae'n fwy tebygol y bydd y claf yn cael canlyniad gwell.

Cynigir cyfleoedd i rai pobl gymryd rhan mewn profion sgrinio rheolaidd er mwyn nodi rhai mathau o ganser (fel canser y fron, canser y coluddyn a chanser ceg y groth). Fodd bynnag, rydym yn gwybod nad yw pawb yng Nghymru yn dewis cymryd rhan mewn profion sgrinio.

Beth mae'r GIG yng Nghymru yn mynd i'w wneud i helpu?

- Defnyddio data gwell i nodi ble a pham nad yw pobl yn manteisio ar gyfleoedd sgrinio a fydd yn ein helpu i gymryd camau penodol.
- Bydd Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, gwasanaethau gofal sylfaenol (meddygon teulu a thimau gofal iechyd cymunedol) ac ysbytai yn cydweithio i geisio cynyddu nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn sgrinio.

Cael pobl yn barod ar gyfer triniaeth canser cyn iddo ddechrau (Optimeiddio Iechyd / Rhagsefydlu)

Mae optimeiddio iechyd a rhagsefydlu yn golygu paratoi pobl i ymdopi'n well â'r profion a ddefnyddir i wneud diagnosis o ganser, sgîl-effeithiau triniaeth canser, ac adfer ar ôl cael triniaeth.

Mae hyn yn cynnwys annog pobl i fod mor egnïol â phosibl, bwyta'n iach a gofalu am eu llesiant meddyliol. Yng Nghymru, rydym yn dechrau cynnig rhagsefydlu i rai pobl sy'n cael diagnosis o ganser, ond nid pawb.

Beth mae'r GIG yng Nghymru yn mynd i'w wneud i helpu?

- Gosod safonau ar gyfer sefydliadau gofal iechyd yng Nghymru er mwyn sicrhau bod gan gleifion fynediad teg at ragsefydlu a bod y gwasanaethau a gynigir o'r un safon ledled Cymru.
- Bydd gwasanaethau gofal sylfaenol, ysbytai ac elusennau yn cydweithio i hyrwyddo pwysigrwydd ceisio cymorth os oes unrhyw arwyddion neu symptomau o ganser sy'n peri pryder ac annog pobl sydd wedi cael diagnosis o ganser i gadw'n iach wrth aros am driniaeth. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi pobl a grwpiau heb gynrychiolaeth i gael mynediad at y gwasanaethau hyn.

3 Nodi bod gan berson ganser yn gyflymach (Diagnosis Cyflymach)

Mae pobl sy'n cael diagnosis o ganser mor gynnar â phosibl yn fwy tebygol o fyw'n hirach a chael llai o gymhlethdodau o ganlyniad i'r triniaethau.

Mae'r GIG yng Nghymru yn dod â grŵp o arbenigwyr ynghyd i edrych ar sut y gallwn wneud diagnosis o ganser mor gynnar â phosibl ledled Cymru.

Beth mae'r GIG yng Nghymru yn mynd i'w wneud i helpu?

- Mae gwaith eisoes wedi dechrau i helpu i roi diagnosis i bobl yn gyflymach drwy Glinigau Diagnosis Cyflym. Bydd y rhain yn cael eu cyflwyno ledled Cymru.

- Datblygu canolfannau penodol lle gall pobl fynd i gael profion ac ymchwiliadau yn gyflymach ac yn fwy effeithlon, weithiau i gyd ar yr un pryd. Gall y rhain fod mewn ysbytai neu leoliadau nad ydynt yn ysbytai a gallant gwmpasu rhanbarthau mwy. Bydd profion canser yn cael blaenoriaeth yn y canolfannau hyn.

4 Gwella amseroedd aros ar gyfer triniaeth canser (Adferiad Gofal wedi'i Gynllunio)

Mae'r amseroedd aros am brofion a thriniaeth ar gyfer canser wedi cynyddu'n sylweddol oherwydd yr effaith a gafodd COVID ar y gwasanaethau iechyd. Cafodd llawer eu hoedi oherwydd y mesurau a gymerodd y GIG yng Nghymru i reoli'r pandemig ond hefyd oherwydd nad oedd y gweithlu ar gael i ddarparu'r gofal yr oedd ei angen ar gleifion.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod nodau i sefydliadau gofal iechyd leihau'r amseroedd aros. Bydd angen i bob sefydliad gofal iechyd gydweithio i sicrhau bod amseroedd aros ar gyfer cael diagnosis canser a thriniaethau canser yn gwella.

Cytunwyd ar gyfres o Lwybrau Optimaidd Cenedlaethol sy'n disgrifio'n glir beth ddylai ddigwydd i'r rhan fwyaf o gleifion wrth iddynt fynd ar hyd eu taith canser.

Beth mae'r GIG yng Nghymru yn mynd i'w wneud i helpu?

- Bydd sefydliadau gofal iechyd yn gweithio mewn modd gwahanol er mwyn cwtogi'r amser y mae'n rhaid i gleifion aros am brofion a thriniaeth canser, er enghraifft drwy ddarparu mynediad iddynt at ganolfannau diagnostig cyflym un stop, gan gydymffurfio â'r Llwybrau Optimaidd Cenedlaethol; a defnyddio technoleg fel y gall meddygon wneud diagnosis o ganserau'r croen yn gyflymach.

- Bydd sefydliadau gofal iechyd yn gweithio ar draws ffiniau i helpu i leihau amseroedd aros ar draws rhanbarthau yn hytrach nag yn eu hardaloedd eu hunain yn unig.

5 Polisi iechyd cenedlaethol sy'n gwella gofal canser ac amseroldeb (Cydymffurfio â'r Llwybr Canser Sengl / Llwybrau Optimaidd Cenedlaethol)

Mae Cymru wedi arwain y ffordd yn y Deyrnas Unedig o ran datblygu Llwybrau Optimaidd Cenedlaethol ar gyfer y rhan fwyaf o ganserau.



Dylai cleifion dderbyn triniaeth o fewn

62 diwrnod

o'r adeg yr amheuir canser

Mae'r Llwybrau Optimaidd Cenedlaethol yn disgrifio'r hyn a ddylai ddigwydd i unigolyn y tybir ei fod yn dioddef o ganser gan sicrhau ei fod yn cael ei weld, ei drin a'i gefnogi mewn modd amserol. Mae'r llwybrau'n defnyddio'r ymchwil a'r dystiolaeth orau i ddisgrifio pa ymchwiliadau a thriniaeth ddylai ddigwydd ac ym mha drefn. Mae'r Llwybrau Optimaidd Cenedlaethol yn helpu gwasanaethau i gyrraedd targed y Llwybr Canser Sengl. Dyma'r ffordd safonol y mae sefydliadau gofal iechyd yn cyfrif ac yn adrodd ar amseroedd aros canser. Dylai cleifion gael eu triniaeth o fewn 62 diwrnod i'r adeg y tybir bod canser arnynt.

Dylai hyn helpu i wella profiad y claf a llwyddiant y driniaeth drwy wella diagnosis cynnar a lleihau amseroedd aros.

Beth mae'r GIG yng Nghymru yn mynd i'w wneud i helpu?

- Monitro, adolygu ac olrhain darpariaeth y Llwybr Canser Sengl a'r defnydd o'r Llwybrau Optimaidd Cenedlaethol yn unol â thargedau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

6 Trin canser yn effeithiol (Triniaethau Effeithiol)

Mae tair prif ffordd o drin canser: llawdriniaeth, radiotherapi, a therapi systemig gwrth-ganser. Mae pob un o'r triniaethau hyn yn ceisio gwella cyfraddau goroesi canser a/neu ansawdd bywyd.

Llawfeddygaeth

Llawfeddygaeth yw llawdriniaeth neu weithdrefn sy'n ceisio tynnu rhywfaint neu'r cyfan o'r canser ac o bosibl rhywfaint o'r meinwe sydd gerllaw'r canser allan o'r corff. Gall hyn helpu i stopio'r canser rhag tyfu a'i atal rhag effeithio ar y corff a gall helpu triniaethau eraill i weithio'n well.

Radiotherapi

Mae Radiotherapi yn cael ei ddefnyddio i drin rhai canserau drwy ddefnyddio pelydrau-X neu fathau tebyg o ymbelydredd i atal y canser rhag tyfu neu ei ddinistrio.

Therapi Systemig Gwrth-Ganser

Ystyr therapi systemig gwrth-ganser yw unrhyw driniaeth cyffuriau a ddefnyddir i reoli neu drin canser, mae hyn yn cynnwys cemotherapi, imiwnotherapi, therapi wedi'i dargedu, therapi hormonaidd neu gyfuniad o'r rhain.

Beth mae'r GIG yng Nghymru yn mynd i'w wneud i helpu?

- Cydweithio i sicrhau bod pob claf yn cael mynediad gwell at y triniaethau canser gorau a mwyaf effeithiol.

- Datblygu fersiwn ddigidol o'r cerdyn rhybuddio claf ar gyfer cleifion sy'n derbyn therapi systemig gwrth-ganser. Cardiau gwybodaeth o faint waled yw'r cardiau rhybuddio, sy'n rhoi cyngor ac arweiniad i gleifion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i'w helpu i reoli unrhyw symptomau y gallent eu profi yn ystod, neu ar ôl, eu triniaeth.
- Gwneud argymhellion er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael mynediad at wybodaeth a chyngor 24 awr y dydd, saith niwrnod yr wythnos ynglŷn â'u therapi systemig gwrth-ganser. Mae hyn oherwydd y gall cael therapi systemig gwrth-ganser achosi sgil-effeithiau, a phroblemau meddygol eraill y mae angen i weithwyr gofal iechyd proffesiynol eu hasesu.
- Gwella hygyrchedd ac amseroedd aros i gleifion sydd angen radiotherapi.
- Sicrhau bod y prosesau, yr wyddoniaeth a'r technolegau diweddaraf yn cael eu defnyddio mewn radiotherapi i sicrhau'r buddion gorau posibl i gleifion a gwella gwasanaethau.

Gwasanaethau Oncoleg Acíwt

Caiff rhai cleifion wybod am y tro cyntaf fod ganddynt ganser mewn adran achosion brys ysbyty pan fyddant yn ymgyflwyno â phroblem frys newydd. Mae hwn yn digwydd yn fwy cyffredin gyda rhai mathau o ganser. Mae cleifion sy'n cael diagnosis o'r fath yn dueddol o gael profiad gwaeth, ac mae'r canlyniadau'n aml yn waeth oherwydd ei bod yn bosibl bod y diagnosis o ganser yn digwydd yn ddiweddarach.

Gall rhai cleifion gael sgil-effeithiau o'u canser neu o'r driniaeth a bydd angen iddynt gael cymorth brys gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol.

Mae'r GIG yng Nghymru wedi datblygu gwasanaeth sy'n darparu cyngor a gofal arbenigol i gleifion sy'n ymgyflwyno fel achosion brys â chanser neu broblemau cysylltiedig. Gelwir y gwasanaeth hwn yn wasanaeth oncoleg acíwt.

Beth mae'r GIG yng Nghymru yn mynd i'w wneud i helpu?

- Sicrhau bod y gwasanaethau oncoleg acíwt yng Nghymru yn gweithio i'r un set o safonau.
- Darparu mynediad cyfartal at dimau gwasanaethau oncoleg acíwt.
- Datblygu llwybrau sy'n benodol i gleifion sy'n cyflwyno fel hyn er mwyn cael y gofal cywir iddynt cyn gynted â phosibl a gwella'u profiad.



Gwasanaethau arbenigol (Cyflunio a Chynaliadwyedd Gwasanaethau Arbenigol / Trydyddol)

Mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn gyfrifol am sicrhau bod gan boblogaeth Cymru fynediad teg a chyfartal i wasanaethau arbenigol a chymhleth. Dim ond mewn rhai ysbytai neu ganolfannau penodol y darperir y gwasanaethau hyn. Nod y cynllun yw gwella ansawdd y gwasanaethau hyn a mynediad iddynt.

Beth mae'r GIG yng Nghymru yn mynd i'w wneud i helpu?

- Sicrhau bod cleifion yn cael mynediad cyfartal at wasanaethau canser arbenigol megis profion diagnostig arbenigol, er enghraifft sganiau canser arbennig a radiotherapi a thriniaethau llawfeddygol arbenigol, drwy wella'n barhaus sut mae Pwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru yn datblygu ac yn monitro profion a thriniaethau arbenigol. Er mwyn sicrhau bod y rhain yn cael eu darparu i'r safon uchaf a bod modd eu cynnal, weithiau bydd angen i gleifion deithio ymhellach i gael y profion a'r triniaethau hyn.



Defnyddio technoleg newydd i wella prosesau canfod, diagnosis a thriniaethau canser (a elwir weithiau yn Feddygaeth Fanwl)

Mae canser yn aml yn cael ei achosi pan fo'r genynnau yng nghelloedd ein corff yn mynd o chwith. Genomeg canser yw'r astudiaeth o sut y gall y newidiadau hyn yn ein genynnau achosi canser. Mae datblygiadau yn y maes hwn yn gyffrous ac yn torri tir newydd ar gyfer canfod a thrin canser a lleihau sgil-effeithiau'r driniaeth. Mae hyn yn golygu y bydd ffyrdd newydd o wneud diagnosis, a darparu triniaeth ac ôl-driniaeth canserau a fydd o fudd i gleifion, ar gael yn fuan.

Beth mae'r GIG yng Nghymru yn mynd i'w wneud i helpu?

- Cyhoeddi cynllun manwl o sut y caiff gwasanaethau genomeg canser eu darparu mewn ffordd deg, amserol ac effeithiol yng Nghymru.

- Bydd sefydliadau gofal iechyd yn cydweithio i sicrhau y gall gwasanaethau gefnogi'r datblygiadau mewn profion genomig, yn enwedig ym maes gwasanaethau patholeg.

7 Gofal i'r cleifion hynny na ellir gwella'u canser (Gofal Lliniarol a Gofal Diwedd Oes)

I gleifion sy'n byw gyda chanser nad oes modd ei wella neu sy'n agosáu at ddiwedd eu hoes oherwydd canser, gall gofal personol unigol wneud gwahaniaeth enfawr i ansawdd eu bywyd.

Mae hyn yn bwysig ar gyfer rheoli symptomau, llesiant meddyliol a gofal cymdeithasol a seicolegol. Mae'n bwysig darparu gofal i deulu a ffrindiau hefyd. Mae gwasanaethau gofal lliniarol a gofal diwedd oes cefnogol yn cael eu harwain gan fwrdd GIG cenedlaethol penodedig, a elwir yn Fwrdd Gofal Diwedd Oes.

Beth mae'r GIG yng Nghymru yn mynd i'w wneud i helpu?

- Bydd canllawiau cenedlaethol yn cael eu datblygu ar gyfer cleifion sy'n byw gyda chanser nad oes modd ei wella, neu sy'n marw o ganser. Dylai'r canllawiau hyn wella safonau a mynediad at y math hwn o ofal.

8 Cefnogi cleifion canser a gwella gwasanaethau (Gwella Profiad Claf)

Mae'n bwysig bod cleifion sy'n cael diagnosis o ganser yn cael yr holl wybodaeth sydd ei angen arnynt am eu salwch a'u bod yn cael eu cefnogi ar hyd y llwybr cyfan. Bydd hyn yn eu helpu i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth fel eu bod yn cael y gofal cywir ar eu cyfer hwy.

Dylai cleifion gael y cyfle i drafod eu credoau iechyd, eu pryderon, a'r dewisiadau sydd orau ganddynt er mwyn sicrhau bod y gofal maent yn ei dderbyn yn seiliedig ar eu hanghenion unigol. Dylid cofnodi hyn mewn cynllun gofal ysgrifenedig sy'n cael ei lunio ar y cyd a'i rannu â'r claf. Dylai pob claf canser yng Nghymru gael gweithiwr proffesiynol penodol y gall gysylltu ag ef (er enghraifft, nyrs neu weithiwr iechyd proffesiynol arall (gweithiwr allweddol)), i'w gefnogi a'i arwain at wasanaethau eraill megis cyngor a gwybodaeth am fudd-daliadau a sut i gael mynediad i ofal cymdeithasol.

Beth mae'r GIG yng Nghymru yn mynd i'w wneud i helpu?

- Bydd sefydliadau gofal iechyd yn cael eu cefnogi i gydweithio i sicrhau bod cleifion yn cael gofal sy'n seiliedig ar eu hanghenion unigol a'r hyn sy'n bwysig iddynt, drwy ganllawiau, offer, dogfennau a safonau cenedlaethol gwell.

- Bydd disgwyl i sefydliadau gofal iechyd sicrhau bod pob claf yn cael cyfle i ddweud wrthym beth aeth yn dda a beth allai fod wedi bod yn well.

9 Cydweithio i wella gwasanaethau (Galluogwyr System Gyfan Allweddol)

Mae sawl mater arall y mae angen eu gwella er mwyn gwneud i wasanaethau canser a gofal cleifion weithio'n well.

Y Gweithlu

Cyfeirir at y bobl sy'n gweithio yn y GIG yng Nghymru sy'n darparu gofal a chymorth i gleifion â chanser fel y gweithlu. Mae angen i'r gwaith o gynllunio'r gweithlu fod yn well, gan gynnwys deall anghenion gweithlu'r dyfodol yn well a gwella mynediad i hyfforddiant i staff newydd a staff profiadol sy'n gweithio ym maes canser.

Un o'r prif broblemau yn y gwasanaethau canser yng Nghymru yw nad oes gennym bob amser ddigon o weithlu profiadol i ddarparu'r gofal sydd ei angen ar gleifion mewn modd amserol. Bydd sefydliad GIG Cymru, o'r enw Addysg a Gwella Iechyd Cymru, yn gweithio gyda gweddill y GIG yng Nghymru i ddatblygu cynlluniau i wneud y gweithlu'n fwy gwydn ac yn well yn yr hyn y maen nhw'n ei wneud. Bydd hyn weithiau'n golygu gweithio mewn ffyrdd gwahanol, yn fwy effeithlon a gan ddefnyddio technolegau newydd. Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn gyfrifol am gefnogi'r gweithlu presennol ond hefyd am hyfforddi a thyfu gweithlu'r dyfodol.

Hysbysrwydd a Gwybodaeth

Hysbysrwydd a gwybodaeth yw'r ffordd yr ydym yn casglu gwybodaeth am bobl yr effeithir arnynt gan ganser, a sut y rhennir yr wybodaeth hon rhwng sefydliadau gofal iechyd. Mae hyn yn cynnwys edrych ar dueddiadau i helpu i nodi lle mae pethau'n gwella neu feysydd sydd angen eu gwella.

Mae sefydliad GIG Cymru, o'r enw Iechyd a Gofal Digidol Cymru, yn gyfrifol am weithio gyda gweddill y GIG yng Nghymru i ddatblygu system gwybodaeth canser newydd a fydd yn ei gwneud yn bosibl i wybodaeth gael ei rhannu rhwng sefydliadau. Bydd hyn yn golygu bod yr wybodaeth am gleifion â chanser ar gael yn ehangach i'r gweithwyr proffesiynol sy'n gofalu amdanynt. Bydd data hefyd yn cael ei gasglu i ddangos pa mor dda y mae gwasanaethau canser yn cael eu darparu a lle mae ansawdd gofal yn amrywio ledled Cymru.

Ymchwil ac Arloesi

Mae ymchwil canser yn nodi achosion canser, ac yn helpu i ddatblygu cynlluniau newydd ar gyfer atal, gwneud diagnosis, trin a gwella o ganser. Mae Cynllun Ymchwil Canser wedi cael ei gyhoeddi yng Nghymru sy'n disgrifio'r hyn y mae angen ei gyflawni dros y blynyddoedd nesaf. Er mwyn gwella ansawdd gwasanaethau canser a chanlyniadau cleifion, mae angen buddsoddi mewn ymchwil canser. Mae hefyd yn gofyn am sicrhau bod gan fwy o gleifion yng Nghymru fynediad teg at ymchwil, er enghraifft recriwtio cleifion cymwys i gymryd rhan mewn treialon clinigol lle mae ganddynt fynediad i gyffuriau a thriniaethau sy'n cael eu profi o hyd.

Bydd sefydliadau gofal iechyd yn cydweithio â sefydliadau ymchwil canser ac elusennau i sicrhau bod y Cynllun Ymchwil Canser yn cael ei roi ar waith. Mae'n bwysig bod cleifion yng Nghymru yn cael mynediad gwell a thecach at dreialon ymchwil canser pan fo'r rhain yn briodol ac ar gael.

Ystyr arloesi yw rhoi technolegau newydd ar waith yn ymarferol a defnyddio ffyrdd newydd o weithio. Gall y rhain fod yn fwy effeithiol, yn fwy diogel neu'n fwy effeithlon. Bydd pob sefydliad gofal iechyd yn cydweithio i gyflawni'r Cynllun Gweithredu Arloesi a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru, fel bod gan gleifion canser a'r staff sy'n gofalu amdanynt y dulliau, y technolegau, y prosesau a'r offer diweddaraf o ran y gofal a gynigir er mwyn darparu'r canlyniadau gorau.

10 Crynodeb

Mae'r cynllun hwn yn uchelgeisiol a bydd yn rhoi'r cyfrifoldeb ar bawb sy'n ymwneud â gofal canser.

- Bydd yn cefnogi ac yn galluogi pobl i wella effaith y gofal a ddarperir gan y GIG yng Nghymru.

- Erbyn diwedd y cynllun, dylai fod yn bosibl gweld bod gwelliant mesuradwy wedi digwydd ym meysydd allweddol atal canser, gwneud diagnosis, effeithiolrwydd triniaeth a phrofiad cleifion canser yng Nghymru.

GIG CYMRU NHS WALES

Rhwydwaith Canser Cymru

Wales Cancer Network